# ROWLANDS, HENRY ('Harri Myllin '; 1832 - 1903), llenor a hynafiaethydd

**Enw:** Henry Rowlands
**Ffugenw:** Harri Myllin
**Dyddiad geni:** 1832
**Dyddiad marw:** 1903
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** llenor a hynafiaethydd
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Enid Pierce Roberts

Ganwyd yn ardal Llanfyllin yn 1832. Bwriadai'r Parch. Richard Richards (gweler Richards, Thomas) wneud clerigwr ohono, ond bu hwnnw farw. Yn 1859 ymunodd Henry Rowlands â heddlu sir Ddinbych. Bu'n heddgeidwad yng Nghefn Mawr, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llansilin, a Llandegla. Ymddiswyddodd yn 1891 a symud i Langollen i fyw. Gwnaethpwyd ef yn gyfieithydd swyddogol i'r llysoedd yn Wrecsam, 1893, swydd a ddaliodd hyd Fai 1902. Bu farw yn ei gartref yn Abbey Road, Llangollen, 28 Ionawr 1903, yn 70 oed. Ysgrifennodd lawer i wahanol gylchgronau megis yr *Haul*, *Y Cyfaill Eglwysig*, *Y Cronicl*, *Yr Eurgrawn*, *Y Winllan*, ac ysgrifennai'n gyson i Bye-Gones o'i ddechreuad hyd 1901. Drwy gyfrwng ei lafur ef yn y Wasg y cafwyd cofgolofn i Huw Morys yn Llansilin. Y mae amryw o'i emynau yn *Emyniadur yr Eglwys*. Efelychiadau o'r Saesneg yw llawer o'i farddoniaeth.

## Awdur

**Dr Enid Pierce Roberts**

## Ffynonellau

T. R. Roberts, *Eminent Welshmen: a short biographical dictionary of Welshmen... from the earliest times to the present* (1908)

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1903, 28

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361431

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu